

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Eric Edwards (Saron) a hynny ychydig wythnosau yn unig ar ôl iddo golli ei briod, Annie. Cyflwynwn eu dwy ferch – Lisa a Iona – a'u teuluoedd yn dyner iawn i ofal yr Arglwydd, a gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am eu rhieni. Tristwch inni hefyd oedd clywed am farwolaeth Mrs Morfudd Williams (Henllan) a fu farw ddiwedd mis Gorffennaf. Diolchwn amdani hithau a chofiwn yn gynnes iawn am ei theulu. Yna, dechrau'r wythnos hon, bu inni golli cymeriad arall annwyl iawn ym marwolaeth Mr Emllyn Evans (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod – Megan, ac â'r meibion – Clwyd, Elfed, Arwel a gweddiill y teulu yn eu profedigaeth. Cyflwynwn hwythau i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt. Cofiwn yn ein gweddiâu hefyd am Emyr Rees (Saron) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Gwyn. Mae'n dymuniadau yr un modd iddynt hwythau brofi nerth a chynhaliadau Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Ar yr un pryd, cofiwn am sawl un o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd dros yr haf. Cofiwn yn arbennig am Mrs Bessie Owens (Cefn Berain) sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Mae Rhiannon Evans (Llansannan) yn cael gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac yno hefyd am ychydig ddyddiau y bu Bethan Batty, Megan Evans a Ceinlys Jones (Llansannan); a Dylan Roberts (Henllan). Mae'n dda cael adrodd fod Bob Edwards (Groes) yn gwella ac iddo gael dod adref o'r ysbyty. Mae eraill sydd ddim cystal eu hiechyd ar hyn o bryd ac eraill wedi cael anafiadau. Cyflwynwn hwy oll yn ein gweddiâu, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

Llongyfarchiadau i Gwilym ac Eirwen Foulkes (Llanfair) ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar, ac i Elwyn Tudor (Henllan) fydd yn dathlu penblwydd arbennig dechrau mis Medi.

Dymunwn yn dda i Manon Owen (Llanefydd) a William McNiece ar eu priodas ddechrau mis Medi. Dymunwn orau'r nef iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Llinos Hughes (Cefn Berain), Llinos Roberts a Meirick Ll. Davies (Cefn Meiriadog), Doreen Evans, Betty Williams, Gwynant a Ceinlys Jones, a Gruffydd R. Jones (Llansannan) fydd yn derbyn y Fedal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig prynhawn dydd Sadwrn, Medi 14eg am 2.00 yng Nghapel Berea Newydd, Bangor LL57 2AX. Diolchwn amdanynt, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.

(Os ydych chi wedi gadael enw rhywun allan, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, plis wnewch chi adael i un ohonom wybod, rhag ofn nad yw'r wybodaeth gennym. Diolch.)



Llais Bro Aled

Medi 1^{af} ac 8^{fed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i wasanaeth Bore Bro Aled wrth i ni ddechrau tymor arall o weithgareddau eglwysig hefo'n gilydd. Gobeithio i chi gael haf dymunol a llongyfarchiadau i bawb a lwyddodd mewn sioeau, eisteddfod ac arholiadau, a phob dymuniad da i bawb fydd yn cychwyn mewn ysgol, coleg neu swydd newydd dros y dyddiau nesaf!

Ar ddechrau mis Awst cawsom gyfle fel teulu i dreulio ychydig ddyddiau yn Swydd Efrog ar gyrion parc cenedlaethol yr Yorkshire Dales. Er nad oedd y tywydd cystal â hynny (dyna'r wythnos pan ddaeth y stormydd a'r llifogydd!) bu'n wythnos dymunol o ymweld â rhan o Loegr oedd yn ddieithr i mi. Un bore heulog cawsom ein dal mewn tagfeydd traffig yng nghanol tref Ilkley. Wrth i'r car ymlwybro'n araf sylwais ar dorf eithaf sylweddol y tu allan i neuadd y dref, gyda band pres yn cyfeillio a'r dyrfa yn cyd-ganu cân anghyfarwydd. Tybed beth oedd yn mynd ymlaen? Doedd dim arwydd i egluro beth yr oeddent yn ei ddathlu neu ei goffau felly parhaodd y dryswch i mi tan yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Chwiliais am atebion ar y we, ond yn aflwyddiannus. Yn y pen draw daeth y cyfan yn glir wedi i mi gael sgwrs hefo un o frodorion Ilkley. Datgelodd ei bod yn ddiwrnod pwysig yn Swydd Efrog – Awst y 1af – dyddiad dathlu Yorkshire Day!

Oni bai i mi holi, mae'n debyg y byddwn yn dal i grafu fy mhen am yr olygfa ryfedd yn Ilkley. Er cystal yw Google, nid yw'n gallu rhoi'r ateb i bob cwestiwn! Ac wrth i ni feddwl am ein bywydau ysbrydol mae gwersi tebyg i'w dysgu. I ddechrau, os ydym yn ansicr am ryw beth – ewch i lygaid y ffynnon i chwilio! Efallai nad yw'r ateb boddhaol i bob cwestiwn a ofynnwn yn y Beibl, ond yno'n unig y cawn Air Duw i'w bobl, wedi'i gofnodi dros y canrifoedd trwy law nifer o bobl wahanol. Ac nid dogfen hanesyddol yn unig yw'r Beibl ond llyfr sy'n cynnwys neges rymus sy'n gallu gwneud gwahaniaeth tragwyddol i'r rhai sy'n darllen a chredu. Trwy'r Ysgrythur y daeth Timotheus i 'ddeal sut i gael dy achub, drwy gredu yn y Meseia Iesu.' (2 Timotheus 3:15)

Ac yn ail, i ni sydd wedi profi gras Duw yn barod trwy gredu yn Iesu Grist, rhaid i ni fod yn barod i ateb pobl pan maent yn ein holi. Dyma siars Pedr i ni:

'Byddwch barod bob amser i roi ateb i bwy bynnag sy'n gofyn i chi esbonio beth ydy'r gobaith sydd gynnwch chi.' (1 Pedr 3:15)

Os nad ydym ni'n barod i rannu ag eraill pam fod bywyd a marwolaeth Iesu yn destun diolch dyddiol i ni, sut ddaw ein ffrindiau, teulu a chymdogion byth i wybod?

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Bore Bro Aled** yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
- Mercher – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu ac yn gweinyddu'r cymun.
- Iau – 12^{fed} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sadwrn – 14^{eg} ➤ **Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul â'r Fedal Gee** yng Nghapel Berea Newydd, Bangor LL57 2AX, am 2.00.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Bore Bro Aled** yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
- Mercher – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (1^{af})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mawrth – 10^{fed} ➤ Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (8^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Bore Bro Aled** yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 10.15, a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 11.00.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Bore Bro Aled** yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd y Parch. Dafydd Job hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.

I ddod

- **IS-BWYLLGOR CHWIORYDD YR HENADURIAETH** – Noson yng nghwmni Dr Nerys Tudor nos Fercher, Medi 18fed yng Nghapel Henllan am 7.00.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Ebeneser, Rhuddlan nos Iau, Medi 19eg am 6.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (11^{eg}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.